Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Older People's Commissioner for Wales

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

-

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

**Mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at Gymru sy'n arwain y gad o ran grymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda.**

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

## Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

© Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Summary requirements and structure of the report | 04 |
| Role of the Older People's Commissioner for Wales | 05 |
| The Commissioner's Equality Objectives for 2024-25 | 06 |
| Commissioner's work on embedding equality | 08 |
| Appendix A: Workforce profiles as at 31/03/25 | 16 |

# Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaid iddi lynu at y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau penodol i Gymru ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2024-26:

- Mae Adran 3 yn egluro rôl y Comisiynydd
- Mae Adran 4 yn nodi Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2024-26
- Mae Adran 5 yn amlinellu gwaith y Comisiynydd ar wreiddio cydraddoldeb, gan gynnwys cynnydd ar gyfer 2024-25
- Atodiad A – Proffiliau'r gweithlu ar 31 Mawrth 2025

Gellir gweld copïau o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ac adroddiadau blynyddol y gorffennol ar wefan y Comisiynydd.

# Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Corfforaeth Undyn yw'r Comisiynydd a grëwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n endid cyfreithiol annibynnol yn ei hawl ei hun ac yn awdurdod rhestredig i ddibenion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau.

Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm Cyngor a Chymorth ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru;
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru; ac
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

# Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-26

## 1. Hyrwyddo diwylliant mewnol sy'n groesawgar ac yn gefnogol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob gweithiwr

**Camau Gweithredu Blwyddyn 1:**

- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth.
- Darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar draws y sefydliad.
- Adolygu effeithiolrwydd modiwl cydraddoldeb y rhaglen gynefino a'i ddatblygu yn ôl yr angen.
- Datblygu a Chyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
- Monitro'r gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yng ngweithlu'r Comisiynydd

## 2. Cynyddu ymwybyddiaeth a chyrhaeddiad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth

**Camau Gweithredu Blwyddyn 1:**

- Casglu data cydraddoldeb gan ymholwyr i'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.
- Dadansoddi proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.
- Gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Cymorth a Chyngor ymysg pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth i sefydliadau partner sy'n cefnogi pobl hŷn (statudol a'r trydydd sector) i gyrraedd amrywiaeth pobl hŷn.

## 3. Cryfhau ymgysylltu, cyfathrebu ac ymwneud â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n sail i waith ehangach

**Camau Gweithredu Blwyddyn 1:**

- Datblygu sianeli cyfathrebu gorau ar gyfer cyrraedd pobl hŷn.
- Sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn llywio blaenoriaethau'r Comisiynydd.
- Ymgysylltu ag amrywiaeth y boblogaeth hŷn ledled Cymru.

## 4. Parhau i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio ac yn dylanwadu ar systemau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynllunio ac ymarfer

**Camau Gweithredu:**

- Adrodd ar a bwrw ymlaen ag argymhellion o feysydd gwaith gan gynnwys profiadau pobl hŷn o wasanaethau meddygon teulu; profiadau pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; y cysylltiadau rhwng gwahaniaethu ar sail oedran a cham-drin.

# Gwaith y Comisiynydd ar sefydlu cydraddoldeb

Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae gan y Comisiynydd a'i staff amrediad o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau gweinyddol eraill, gan gynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, gan gynnwys herio arferion gwahaniaethol, annog arferion gorau ac adolygu'r gyfraith.
- Sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am y swydd.
- Recriwtio, cyflogi, hyfforddi a rheoli staff.
- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys tendro am nwyddau a gwasanaethau megis ymchwil.
- Gwobrwyo, cydnabod a thalu i'r staff.
- Rhoi cymorth i bobl hŷn sy'n dymuno gwneud cwyn neu gais i gyrff cyhoeddus neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

Amlinellir yr hyn a gyflawnwyd gan y Comisiynydd yn erbyn ei Hamcanion Cydraddoldeb am y Flwyddyn Ariannol 2024-25 isod:

## Amcan 1: Hyrwyddo diwylliant mewnol sy'n groesawgar ac yn gefnogol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob gweithiwr

### Cam gweithredu: Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

Drwy ymgynghori â staff, datblygwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth mewnol ar gyfer 2024-25. Roedd y cynllun yn cynnwys pedwar ymrwymiad:

- Hyrwyddo amrywiaeth yng ngweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob gweithiwr
- Hyrwyddo amrywiaeth yng ngweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob gweithiwr
- Cryfhau ymgysylltiad, cyfathrebu, ac ymwneud â phobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i sicrhau bod eu lleisiau'n sail i waith ehangach
- Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn

Bydd yr hyn a ddysgir o ddatblygu a gweithredu'r cynllun yn cael ei ddefnyddio wrth gytuno ar Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2026-30.

### Cam gweithredu: Darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar draws y sefydliad

Drwy gydol y flwyddyn, roedd cyfarfodydd tîm wedi'u neilltuo i feysydd dysgu penodol fel:

- Aflonyddu rhywiol – ymyriadau gan bobl sy'n digwydd bod yn dyst
- Creu byd heb hiliaeth: sgyrsiau cadarnhaol am hil
- Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- Rhagfarn ddiarwybod – manteision systemig a chynghreiriaeth
- Ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth
- Rôl gofalwyr

### Cam gweithredu: Adolygu effeithiolrwydd modiwl cydraddoldeb y rhaglen gynefino a'i ddatblygu yn ôl yr angen

Adolygwyd y modiwl gan yr Arweinydd Hawliau a Chydraddoldeb. Cyflwynwyd dull strwythuredig a oedd yn dilyn y fformat isod, a bydd yr Arweinydd yn trafod hyn gyda'r aelod newydd o staff:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – tarddiad statudol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Adroddiad Blynyddol – sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol
- Dysgu a Datblygu

### Cam gweithredu: Datblygu a Chyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Cyhoeddwyd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl ar ein gwefan ym mis Medi 2024.

Mae'r datganiad yn rhoi manylion ein hymrwymiad i egwyddorion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015; yn cadarnhau ein bod yn gyflogwr achrededig y Living Wage Foundation; ac yn rhoi manylion ein cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023.

Fel sefydliad bach ac oherwydd natur gwaith y Comisiynydd, mae ein hasesiad ohonom ni ein hunain yn nodi risg isel o gaethwasiaeth fodern yn ein sefydliad a'n cadwyni cyflenwi.

### Cam gweithredu: Monitro gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau ymhlith gweithlu'r Comisiynydd

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fonitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei gweithlu. Ar 31 Mawrth 2025, roedd y cyflog canolrifol ar gyfer dynion yn uwch nac ar gyfer menyword. Fodd bynnag, mae cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2024-25 yn -1.81%, ac am bob £100 y mae dynion yn ei ennill, mae menywod yn ennill £101.81.

# Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth a chyrhaeddiad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth

### Cam gweithredu: Casglu data cydraddoldeb gan ymholwyr i'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth

Parhaodd Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd i gasglu data cydraddoldeb gan ymholwyr i'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth drwy ddefnyddio ffurflenni adborth. Rhoddir ffurflenni i bob ymholydd ac mae'r ymatebion yn ddienw.

Er bod cwblhau data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dal yn ddewisol, mae gwaith wedi cael ei wneud i geisio cynyddu'r nifer o ffurflenni adborth sy'n cael eu dychwelyd. Mae hyn yn cynnwys darparu ffurflenni adborth mewn amrywiaeth o fformatau a sicrhau bod ymholwyr yn ymwybodol o'r rhesymau dros gasglu data cydraddoldeb a sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth o'r fath.

### Cam gweithredu: Dadansoddi proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, fe wnaeth ymholwyr a gysylltodd â'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth ac a ddarparodd ddata cydraddoldeb ddatgelu'r canlynol

- Dywedodd 38% o'r ymholwyr eu bod yn ddynion, dywedodd 61% eu bod yn fenywod, a gwrthododd 1% ateb y cwestiwn hwn
- Roedd 95% o'r ymholwyr yn ystyried eu hunain yn Wyn, 2% yn grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog, 2% yn Ddu, Affricanaidd/Caribïaidd, ac roedd yn well gan 2% beidio â dweud
- Dywedodd 46% o'r ymholwyr eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd, nid oedd 29% yn ystyried eu hunain yn anabl, ac roedd yn well gan 5% beidio â dweud
- Dywedodd 66% o'r ymholwyr mai Cristion yw eu hunaniaeth grefyddol, nid oedd gan 20% grefydd na chred, roedd gan 8% grefydd neu gred arall, ac roedd yn well gan 7% beidio â dweud
- Dywedodd 96% fod eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r hyn a bennwyd iddynt adeg eu geni, dywedodd 2% ei fod yn wahanol i'r hyn a bennwyd iddynt adeg eu geni, ac roedd yn well gan 2% beidio â dweud
- Dywedodd 48% o'r ymholwyr eu bod yn briod, roedd 28% yn weddw, roedd 13% yn sengl, roedd 7% wedi ysgaru, roedd 3% yn cyd-fyw, ac roedd yn well gan 2% beidio â dweud
- Roedd 80% o'r ymholwyr yn heterorywiol, roedd 2% yn ddeurywiol, roedd 2% yn hoyw/lesbiaidd, ac roedd yn well gan 17% beidio â dweud
- Dywedodd 64% o'r ymholwyr eu bod yn ystyried eu hunain yn Gymry, 23% yn Brydeinwyr, 11% yn Saeson, a 2% yn Wyddelig
- Cwblhawyd 3% o'r ffurflenni adborth yn Gymraeg

### Cam gweithredu: Gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Cymorth a Chyngor ymysg pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig

Mae'r Comisiynydd wedi ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth drwy ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar gael i hyrwyddo'r Gwasanaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Adran wedi'i diweddaru ar wefan y Comisiynydd i gynghori pobl ar eu hawliau a'r ffyrdd y gall y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth eu cynorthwyo
- Taflen hyrwyddo a deunyddiau hyrwyddo newydd wedi cael eu cynhyrchu, sydd wedi cael eu dosbarthu drwy waith ymgysylltu parhaus y Comisiynydd
- Hysbysebion mewn papurau newydd ledled Cymru
- Hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio X a Facebook
- Ymgysylltu wedi'i dargedu ag amrywiaeth eang o bobl hŷn ledled Cymru

### Cam gweithredu: Hyrwyddo'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth i sefydliadau partner sy'n cefnogi pobl hŷn (statudol a'r trydydd sector) i gyrraedd amrywiaeth pobl hŷn

Mae'r Pennaeth Cyngor a Chymorth wedi arwain rhaglen ymgysylltu â sefydliadau allweddol sy'n cefnogi pobl hŷn. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth am rôl y Comisiynydd, y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth, a llwybrau atgyfeirio.

Mae ymgysylltu wedi digwydd drwy gyfuniad o gyflwyniadau ar draws y sefydliad, cyfarfodydd gyda thimau cyngor a chymorth, a thrafodaethau un-i-un gydag unigolion allweddol.

Mae hyn wedi arwain at bobl hŷn yn cysylltu â'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth drwy atgyfeiriadau gan sefydliadau partner.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2025-26, gyda'r tîm Cyngor a Chymorth yn gweithio ochr yn ochr â'r Arweinydd Ymgysylltu i nodi digwyddiadau lle gellir cynnal stondinau ar y cyd â sefydliadau partner.

## Amcan 3: Cryfhau ymgysylltu, cyfathrebu ac ymwneud â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n sail i waith ehangach

### Cam gweithredu: Datblygu sianeli cyfathrebu gorau ar gyfer cyrraedd pobl hŷn

Defnyddir amrywiaeth o lwyfannau fel:

- Cyfryngau cymdeithasol (X, Facebook)
- Cylchlythyrau (copi caled ac ar-lein)
- Diweddariadau i'r wefan
- Cyhoeddiadau ar gopi caled
- Cyfryngau print (papurau newydd lleol a chenedlaethol)
- Radio
- Teledu
- Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Er mwyn estyn allan at bobl hŷn nad ydynt ar-lein, mae copïau papur o ganllawiau gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol eraill wedi cael eu dosbarthu ledled Cymru, yn ogystal â chylchlythyrau a phosteri sy'n darparu gwybodaeth neu'n annog pobl hŷn i gysylltu am gyngor a chymorth neu i rannu eu hadborth, eu safbwyntiau a'u syniadau.

Mae erthyglau papur newydd mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a lleol hefyd wedi cael eu defnyddio, gan dynnu sylw at safbwynt y Comisiynydd ar faterion allweddol a'i galwadau am weithredu, yn ogystal â'r materion a'r pryderon sy'n cael eu codi mewn digwyddiadau ymgysylltu.

Ochr yn ochr â hyn, mae gwybodaeth am waith y Comisiynydd ac amrywiaeth eang o adnoddau wedi cyrraedd miloedd o sianeli cyfryngau cymdeithasol i bobl hŷn a rhanddeiliaid – yn enwedig Facebook, sy'n cael ei ddefnyddio gan nifer fawr o bobl 60 oed a hŷn.

### Cam gweithredu: Sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn llywio blaenoriaethau'r Comisiynydd

Roedd Ymgynghoriad 'Dweud eich Dweud' y Comisiynydd, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2024, yn gwahodd pobl hŷn i gysylltu i rannu eu profiadau ac i dynnu sylw at y camau gweithredu a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

Gallai pobl hŷn wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed drwy lenwi holiadur byr, a oedd yn seiliedig ar bedwar canlyniad cenedlaethol allweddol a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlynol i bobl hŷn:

- Cael gafael ar yr wybodaeth, y gwasanaethau, a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
- Teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn eu cymunedau, ac yn eu perthnasoedd
- Cael eu trin yn deg a bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod
- Gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau

Gellid llenwi'r holiadur yn Gymraeg neu yn Saesneg, ar-lein neu ar gopi caled. Dosbarthwyd y fersiwn ar-lein yn eang, a dosbarthwyd copïau papur, y gellid eu dychwelyd drwy Radbost hefyd mewn digwyddiadau ymgysylltu a thrwy sefydliadau rhanddeiliaid ledled Cymru. Hefyd, gallai pobl hŷn gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd dros y ffôn i rannu eu profiadau, eu safbwyntiau a'u syniadau os mai dyna fyddai orau ganddynt.

Rhannwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r holiadur drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr y Comisiynydd (sy'n cael ei ddosbarthu i dros 1612 o unigolion yn electronig ac ar ffurf copi caled), yn ogystal â gyda sefydliadau rhanddeiliaid er mwyn iddynt allu ei gylchredeg drwy eu rhwydweithiau.

Roedd y Comisiynydd hefyd wedi hyrwyddo'r holiadur ac wedi annog pobl hŷn i ymateb mewn nifer o gyfweliadau teledu a radio yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac wedi rhannu gwybodaeth am sut gallai pobl hŷn gysylltu â'i swyddfa fel rhan o straeon am ei hymweliadau ymgysylltu a rannwyd â'r wasg leol.

Ochr yn ochr â hyn, cafwyd cyfres o hysbysebion hefyd mewn papurau newydd ledled Cymru i dargedu pobl hŷn nad ydynt efallai ar-lein neu sydd â chyswllt â sefydliadau rhanddeiliaid, gan eu hannog i ymateb a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Roedd yr ymateb i'r holiadur yn gadarnhaol iawn, gyda chyfanswm o 432 o ymatebion wedi dod i law.

### Cam gweithredu: Ymgysylltu ag amrywiaeth y boblogaeth hŷn ledled Cymru

Roedd cwrdd a siarad â phobl hŷn ledled Cymru yn dal yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2024-25, gydag ymweliadau ag amrywiaeth eang o grwpiau a lleoliadau ledled y wlad.

Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â grwpiau a chlybiau cymdeithasol a gweithgareddau, grwpiau cymorth (fel y rhai ar gyfer gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia), cynlluniau tai gofal ychwanegol a chartrefi gofal. Cyfarfu'r Comisiynydd a'i thîm hefyd â fforymau pobl hŷn ledled Cymru, yn ogystal â grwpiau eraill fel Hynafgwyr Windrush, Men's Sheds, a Merched y Wawr.

Fe wnaeth cyfarfodydd rheolaidd hefyd barhau â Chadeiryddion sefydliadau pobl hŷn cenedlaethol – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol a Fforwm Pobl Hŷn Cymru – i edrych ar y materion allweddol, clywed am brofiadau eu haelodau, a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

I ategu'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd gan bobl hŷn drwy'r holiadur 'Dweud eich Dweud', fe wnaethom gwrdd a siarad â dros 1,000 o bobl hŷn mewn amrywiaeth eang o ymweliadau a digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru. Roedd yr ymgysylltu hwn yn amhrisiadwy, gan ddarparu cyfleoedd pwysig i glywed am y materion sy'n bwysig i bobl hŷn, yn ogystal ag am y newid a'r gwelliannau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

Yn ogystal â'r ymgysylltu hwn, trefnwyd cyfres o grwpiau ffocws a chyfarfodydd hefyd, wedi'u targedu at bobl hŷn nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl, a Hynafgwyr Windrush.

# Amcan 4: Parhau i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio ac yn dylanwadu ar systemau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynllunio ac ymarfer

## Cam gweithredu: Adrodd ar a bwrw ymlaen ag argymhellion o feysydd gwaith gan gynnwys profiadau pobl hŷn o wasanaethau meddygon teulu; profiadau pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; y cysylltiadau rhwng gwahaniaethu ar sail oedran a cham-drin

### Profiadau pobl hŷn o wasanaethau Meddygon Teulu

Cyhoeddwyd canllaw newydd i bobl hŷn ym mis Gorffennaf 2024, sy'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Hawliau pobl hŷn i wasanaethau meddygol allweddol
- Opsiynau wrth gysylltu â phractis a gwneud apwyntiadau
- Tîm y practis a rolau cyffredin
- Lleisio eich barn
- Codi pryderon neu gwynion

Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sefydliadau sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth os yw pobl hŷn yn cael trafferth cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan eu practis, neu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Anfonwyd copïau papur at bob practis yng Nghymru, gan weithio gyda Chydwasanaethau'r GIG, yn ogystal â'u rhannu â phartneriaid cymunedol a phobl hŷn mewn digwyddiadau.

### Profiadau bywyd pobl hŷn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mai 2024 yn seiliedig ar brofiadau bywyd pobl hŷn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, i dynnu sylw at y materion penodol sy'n effeithio ar eu bywydau a sut gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Casglwyd profiadau pobl drwy weithio gyda'r sefydliadau a'r unigolion yr oedd pobl hŷn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ymgysylltu'n rheolaidd â nhw, a oedd yn hwyluso ymgysylltu ledled Cymru. Roedd y bobl hŷn a gymerodd ran yn gallu pennu lefel y wybodaeth yr oeddent am ei rhannu, gan ymateb drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb a grwpiau ffocws neu drwy holiaduron ysgrifenedig. Cyn cyhoeddi'r adroddiad, trefnwyd digwyddiadau ymgysylltu dilynol gyda'r bobl hŷn a'r sefydliadau a oedd wedi cymryd rhan, yn y fformat a oedd fwyaf addas iddynt. Cynhaliwyd rhai o'r rhain fel digwyddiadau wyneb yn wyneb, tra bod grwpiau eraill wedi derbyn fideo, neu adborth ysgrifenedig.

Roedd y camau dilynol hyn yn galluogi'r bobl hŷn a'r sefydliadau a wnaeth alluogi'r ymchwil i glywed am y canfyddiadau a thrafod sut roedd yr adroddiad yn cofnodi eu safbwyntiau a'u profiadau.

Yn ystod sesiynau dilynol wyneb yn wyneb, roedd gan bobl hŷn ddiddordeb yn yr hyn roedd yr ymchwil wedi'i ganfod, a'r camau a gymerwyd o ganlyniad, sy'n cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar allgáu digidol a mynediad i bractisau meddygon teulu, sy'n ddau fater allweddol a godwyd fel rhan o'r ymchwil hwn.

**Y cysylltiadau rhwng oedraniaeth a cham-drin**

Gan adeiladu ar ddigwyddiad bwrdd crwn llwyddiannus a gynhaliwyd yn 2023, a ddaeth â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i archwilio'r rôl y gall oedraniaeth ei chwarae o ran galluogi cam-drin pobl hŷn, sefydlwyd gweithgor i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn yn ehangach.

Datblygodd y grŵp bapur briffio ar gyfer ymarferwyr, a oedd yn tynnu sylw at y corff cynyddol o ymchwil i'r mater hwn ac yn archwilio sut mae oedraniaeth yn aml yn ymwneud â cham-drin pobl hŷn, yn ogystal â sut gall agweddau oedraniaethol mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol siapio'r camau a gymerir pan fydd pryderon am gam-drin yn cael eu codi neu pan fydd cam-drin yn cael ei nodi.

Dosbarthwyd y papur briffio yn eang i randdeiliaid allweddol a'u rhwydweithiau, gan gynnwys aelodau o Grŵp Gweithredu'r Comisiynydd ar Atal Cam-drin, Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol.

# Atodiad C: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/25

## Gwybodaeth cyfrif pennau

**1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchodedig.**

- Oed
- Trawsrywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag arolwg staff blynyddol i gasglu data cydraddoldeb rheolaidd. Mae'r arolwg hwn yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddienw. Am y flwyddyn 2024/25, cafodd y Comisiynydd 17 ymateb allan o 17 posib. Ond oherwydd maint y sefydliad, lle bo'r ffigurau'n cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

**Nifer y bobl a gyflogir fesul Nodwedd Warchodedig:**

| **Oed** | |
|---|---|
| 16-24 | - |
| 25-34 | - |
| 35-44 | 4 |
| 45-54 | 9 |
| 55-64 | 3 |
| 65 a throsodd | - |
| Dewis Peidio Dweud | - |

| **Rhyw** | |
|---|---|
| Gwryw | 3 |
| Benyw | 14 |
| Dewis Peidio Dweud | - |

| Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr? | |
|---|---|
| Ie | 17 |
| Na | - |
| Dewis Peidio Dweud | - |

| Cyfeiriadedd rhywiol | |
|---|---|
| Deurywiol | - |
| Dyn Hoyw | - |
| Menyw Hoyw / Lesbiad | - |
| Heterorywiol / Strêt | 17 |
| Anrhywiol | - |
| Arall | - |
| Dewis Peidio Dweud | - |

| Statws Perthynas | |
|---|---|
| Wedi priodi | 11 |
| Wedi ysgaru | 2 |
| Mewn partneriaeth sifil | - |
| Sengl | 2 |
| Yn cyd-fyw | 2 |
| Wedi gwahanu | - |
| Yn weddw | - |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | - |

| Crefydd neu Gred | |
|---|---|
| Dim crefydd na chred | 9 |
| Cristion (pob enwad) | 7 |
| Bwdydd | - |
| Hindw | - |
| Iddew | - |
| Mwslim | - |
| Sikh | - |
| Unrhyw grefydd neu gred arall | - |
| Dewis peidio dweud | - |

| Hunaniaeth Genedlaethol | |
|---|---|
| Cymreig | 16 |
| Albanaidd | - |
| Seisnig | - |
| Gogledd Iwerddon | - |
| Gwyddelig | - |
| Prydeinig | - |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | - |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | - |

| Tarddiad Ethnig | |
|---|---|
| Gwyn | 17 |
| Grwpiau Aml-ethnig/Cymysg | - |
| Asiaidd | - |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd | - |
| Arall | - |

| Dibynyddion | |
|---|---|
| Dim | 9 |
| Plant dan 18 | 5 |
| Plant dan 25 ac mewn addysg lawn am-ser | 2 |
| Unigolyn 60 oed neu hŷn | - |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | - |

| Anabledd | Oes | Na /Amh | Dewis Peidio Dweud |
|---|---|---|---|
| Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi? | 2 | 15 | - |
| Oes gennych anabledd fel y’i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb? | 3 | 14 | - |
| Oes gan o leiaf un person sy’n ddibynnol arnoch anabledd? | 6 | 11 | - |

**Cymerwyd y data isod o gofnodion Adnoddau Dynol yn hytrach na thrwy’r arolwg staff blynyddol.**

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
|---|---|
| Nifer gweithwyr beichiog yn ystod 2024/25 | 0 |
| Nifer gweithwyr yn cymryd Absenoldeb Mamolaeth yn ystod 2024/25 | 0 |

**2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u didoli yn ôl y categorïau canlynol:**

| Swydd | Dyn | Menyw | Cyfan |
|---|---|---|---|
| Gweinyddwr | 0 | 0 | 0 |
| Swyddog Cymorth/Cynorthwyol a Swyddog | 0 | 1 | 1 |
| Swyddog | 0 | 5 | 5 |
| Pennaeth / Arweinydd | 3 | 5 | 8 |
| Cyfarwyddwyr / Prif Swyddog Gweithredol | 0 | 2 | 2 |
| Comisiynydd | 0 | 1 | 1 |

| Cyflog a Gradd | Dyn | Menyw | Cyfan |
|---|---|---|---|
| 24,437 – 27,947 / A | 0 | 0 | 0 |
| 29,668 – 32,697 / B | 0 | 1 | 1 |
| 35,806 – 41,307 / C | 0 | 5 | 5 |
| 46,005 – 52,774/ D | 3 | 4 | 7 |
| 58,946 – 62,246 / E | 0 | 1 | 1 |
| 65,967 – 72,332 / F | 0 | 2 | 2 |
| 90,000* / Comisiynydd | 0 | 1 | 1 |

*Pennwyd y Lefel Cyflog gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch

| Math o Gontract | Dyn | Menyw | Cyfan |
|---|---|---|---|
| Parhaol | 3 | 13 | 16 |
| Tymor Penodol | 0 | 1 | 1 |
| Dros Dro | 0 | 0 | 0 |

| Patrwm Gweithio | Dyn | Menyw | Cyfan |
|---|---|---|---|
| Full time | 3 | 10 | 13 |
| Part time | 0 | 4 | 4 |
| Compressed hours | 0 | 0 | 0 |

# Recriwtio

**3. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

Mae'r Comisiynydd yn monitro ei phroses recriwtio drwy'r amser i sicrhau bod pob mesur yn cael ei gymryd i geisio cynyddu amrywiaeth ymysg ei staff.

Mae ffurflenni cais ar gael yn barod mewn fformatau gwahanol ac mae hysbysebion recriwtio yn cael eu lleoli'n eang gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau. Mae gan y Comisiynydd Bolisi Urddas yn y Gwaith, ac mae hi'n mabwysiadu arferion da ar gyfer ei phroses recriwtio. Dim ond staff yr adran Adnoddau Dynol sy'n gweld yr holl wybodaeth am nodweddion gwarchodedig mewn ffurflenni cais, ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r panel dethol. Hefyd, mae addasiadau rhesymol ar gael i bob ymgeisydd sy'n gofyn amdanynt.

Fe wnaeth y Comisiynydd recriwtio'n allanol i dri swydd yn ystod 2024/25 (hysbysebwyd un rôl ddwywaith). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymgeiswyr a wnaeth gais am bob swydd:

| Swydd | Nifer yr ymgeiswyr |
|---|---|
| Gweinyddwr Cymorth i'r Tîm | 1 |
| Pennaeth Cyngor a Chymorth | 17 |
| Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 10 |

Mae pob ymgeisydd mewnol ac allanol yn cael y cyfle i lenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth ar adeg gwneud cais. Ond nid yw pob ymgeisydd yn dewis llenwi'r ffurflen a'i chyflwyno. Derbyniodd y Comisiynydd 18 o ffurflenni Monitro Amrywiaeth a oedd yn gysylltiedig â'r broses recriwtio allanol a gynhaliwyd yn ystod 2024/25.

**Nifer y ceisiadau am swyddi o fewn 2024/2025 a dderbyniwyd gan y grwpiau gwarchodedig canlynol:**

| Oed | |
|---|---|
| 16-24 | - |
| 25-34 | 3 |
| 35-44 | 5 |
| 45-54 | 4 |
| 55-64 | 4 |
| 65 a throsodd | - |
| Dewis Peidio Dweud | 2 |

| Rhyw | |
|---|---|
| Gwryw | 6 |
| Benyw | 11 |
| Dewis Peidio Dweud | 1 |

| Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr? | |
|---|---|
| Ie | 16 |
| Na | - |
| Dewis Peidio Dweud | 2 |

| Cyfeiriadedd rhywiol | |
|---|---|
| Deurywiol | - |
| Hoyw / Lesbiad | - |
| Heterorywiol | 15 |
| Anrhywiol | - |
| Arall | - |
| Dewis Peidio Dweud | 3 |

| Statws Perthynas | |
|---|---|
| Priod | 11 |
| Wedi ysgaru | - |
| Partneriaeth Sifil | - |
| Sengl | 3 |
| Cyd-fyw | 1 |
| Wedi gwahanu | - |
| Gweddw | - |
| Dewis Peidio Dweud | 3 |

| Crefydd neu Gred | |
|---|---|
| Dim crefydd na chred | 9 |
| Cristion (pob enwad) | 4 |
| Bwdydd | - |
| Hindw | 1 |
| Iddew | - |
| Mwslim | - |
| Sikh | - |
| Unrhyw grefydd neu gred arall | 1 |
| Dewis peidio dweud | 1 |

| Hunaniaeth Genedlaethol | |
|---|---|
| Cymreig | 13 |
| Albanaidd | - |
| Seisnig | - |
| Gogledd Iwerddon | - |
| Gwyddelig | 1 |
| Prydeinig | 2 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | - |
| Arall | 1 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |

| Tarddiad Ethnig | |
|---|---|
| Gwyn | 15 |
| Grwpiau Aml-ethnig/Cymysg | - |
| Asiaidd | 1 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd | - |
| Arall | 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1 |

| Anabledd | Oes | Na / Amh | Dewis Peidio Dweud |
|---|---|---|---|
| Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi? | 2 | 14 | 2 |
| Oes gennych anabledd yn ôl diffiniad Deddf Gydraddoldeb 2010? | 2 | 13 | 2 |

| Dibynyddion | |
|---|---|
| Plant dan 18 | 5 |
| Plant dan 25 mewn addysg amser llawn | 2 |
| Rhywun 60+ oed | - |
| Dibynyddion eraill | - |
| Dim | 8 |
| Dewis peidio dweud | 3 |

| Mae gan o leiaf un o'm dibynyddion anabledd | |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Na / Amherthnasol | 14 |
| Dewis peidio dweud | 3 |

**Ni chasglwyd data ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth yng nghyswllt gweithgaredd recriwtio am 2024/25.**

**4. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi faint fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu'n llwyddiannus.**

Ni wnaeth unrhyw aelod staff gais am newid swydd o fewn y sefydliad..

## Dysgu a Datblygu

**5. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais**

Fel y nodir ym Mholisi Dysgu a Datblygu'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn anelu at fod yn sefydliad dysgu a bydd yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar staff i lwyddo yn eu swyddi. Mae'r polisi hwn felly yn cefnogi diwylliant o ddysgu a datblygu staff rhagorol ar bob lefel. Mae gweithwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w swyddi a'u datblygiad personol.

Bydd y Comisiynydd yn:

- darparu amgylchedd gweithio heriol, lle anogir staff i ddatblygu a magu sgiliau newydd a phrofiad.
- darparu amrediad o gyfleon datblygu i staff a fydd yn gyson ag anghenion strategol a gweithredol y Comisiynydd.
- sicrhau y caiff pob aelod staff newydd ddealltwriaeth sylfaenol o rôl, swyddogaeth, polisïau a gweithdrefnau'r Comisiynydd wrth gael eu sefydlu yn eu swydd.
- asesu anghenion dysgu a datblygu'r Comisiynydd ac unigolion a llunio dadansoddiad anghenion hyfforddi a dysgu'r Comisiynydd.
- cynnal cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a chytuno arnynt gyda phob aelod staff fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.
- adolygu cynlluniau unigolion a'r Comisiynydd o leiaf bob blwyddyn; asesu effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi a bwydo hynny'n ôl i gynlluniau wedyn.

Mae'r holl weithwyr yn cael cyfle cyfartal o ran hyfforddiant. Cymeradwyodd y Comisiynydd bob cais gan weithiwr am weithgarwch dysgu a datblygu (hyfforddiant) yn ystod 2024/25..

**6. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant**

Cwblhaodd pob un o'r gweithiwr yr hyfforddiant, a gyflawnwyd naill ai fel hyfforddiant unigol neu fel hyfforddiant corfforaethol lle'r oedd pob gweithiwr yn mynychu.

# Trefniadau Cwyno

**7. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a fu'n ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn**

Ni fu yr un o weithwyr y Comisiynydd yn ymwneud â threfniadau cwyno boed hynny fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn ystod 2024/25.

# Trefniadau Disgyblu

**8. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr fu'n destun trefniadau disgyblu**

Ni fu yr un o weithwyr y Comisiynydd yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod 2024/25.

# Ymadawyr

**9.Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a adawodd gyflogaeth yr awdurdod**

Yn ystod 2024/25, ymadawodd pedwar aelod staff â'u swyddi ar sefydliad y Comisiynydd.

Gan fod pob data ar gydraddoldeb staff yn ddienw, does dim data penodol ar gael am nodweddion gwarchodedig y staff hyn. Ond mae'r Comisiynydd yn dal gwybodaeth am oed a rhyw i ddibenion adnoddau dynol ynglŷn a'r staff penodol hyn, a dyma'r wybodaeth:

| Oed | |
|---|---|
| 16-24 | 1 |
| 25-34 | 1 |
| 35-44 | 2 |
| 45-54 | - |
| 55-64 | - |
| 65 a throsodd | - |

| Rhyw | |
|---|---|
| Gwryw | 1 |
| Benyw | 3 |

Comisiynydd
Pobl Hŷn
Cymru

Older People's
Commissioner
for Wales